**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 2 Rhan 1)**
**Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog**

**Dyddiad:** 19 Mai 2010
**Amser:** 7:45
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Craig Stephenson, est 8230

# Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion perthnasol

1.1 Yn dilyn datganiadau ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad ar 21 a 30 Medi 2009, sefydlwyd panel annibynnol a dechreuodd ar ei waith o adolygu'n gwasanaethau dwyieithog ym mis Rhagfyr. Mae'r Panel bellach wedi cyflwyno'i adroddiad a'i argymhellion i Gomisiwn y Cynulliad eu hystyried.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad:

- ystyried yr adroddiad yn Atodiad 1 a chytuno ar ymatebion i bob un o argymhellion y panel; caiff y rhain eu crynhoi yn y tabl yn Atodiad 2;
- cytuno ar yr amserlen weithredu ym mharagraffau 3.3 a 3.4 isod;
- cytuno ar y dulliau deddfwriaethol a ddisgrifir yn adran 4;

- cytuno ar y datganiad i'r wasg yn Atodiad 3;
- nodi y bydd agwedd rheoli prosiect, o fewn y Rhaglen Newid, yn cael ei mabwysiadu er mwyn gwireddu'r argymhellion a fanylir yn adroddiad y Panel; a
- chytuno i ysgrifennu at aelodau'r Panel i ddiolch iddynt am eu gwaith caled ac am eu hadroddiad a'u hargymhellion gwerthfawr.

3.0 Trafodaeth

3.1 Clywodd y Panel dystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad, tystion allanol a staff Comisiwn y Cynulliad. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 1 o adroddiad y Panel.

3.2 Yn ei adroddiad, mae'r Panel wedi cydnabod bod y Cynulliad ymhlith ychydig o sefydliadau yng Nghymru sydd â'r gwasanaethau dwyieithog mwyaf datblygedig. Byrdwn ei argymhellion yw y dylem wella ein gwasanaethau dwyieithog er mwyn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a gwella gwasanaethau i Aelodau. Dylai ei argymhellion ar gryfhau ein trefniadau mewnol hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn trafodion ffurfiol a dylai gwneud defnydd da o dechnoleg sy'n datblygu roi mwy o effeithiolrwydd a hygyrchedd. Mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai rhoi'r argymhellion ar waith yn galluogi'r Cynulliad ymhellach i fod yn batrwm rhyngwladol y mae'n anelu ato o ran darparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru.

3.3 Nododd datganiad ysgrifenedig y Comisiwn ar 30 Medi 2009 y byddai unrhyw newidiadau a argymhellwyd gan yr adolygiad i'r trefniadau ar gyfer cyfieithu trafodion y Cyfarfodydd Llawn, yn cael eu rhoi ar waith ac, yn fwy eang, y byddai argymhellion yr adolygiad annibynnol yn rhoi sail i ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y dylid adolygu cynllun iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol.

3.4 O gofio argymhelliad y Panel na ddylem gyfieithu Cofnod y Trafodion yn llawn (paragraff 67), cynigir y dylai'r arfer o'i gyfieithu'n llawn ddod i ben yn ystod toriad yr haf ac y dylid

datblygu Cofnod y Werin hollol ddwyieithog a'i dreialu ar gyfer tymhorau'r hydref a'r gwanwyn. Bydd fersiwn goeth mewn lle ar gyfer y Cynulliad newydd ym mis Mai 2011.

3.5 Ar wahân i nifer o argymhellion y gellir eu rhoi ar waith ynghynt, cynigir bod mwyafrif yr argymhellion eraill yn sail i'r trefniadau newydd ar gyfer 2011 pan fydd y Cynllun Iaith Gymraeg presennol wedi dod i ben. Bydd y trefniadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn y ffordd arferol yn ystod hydref/gaeaf 2010 a chaiff Comisiwn y Cynulliad y wybodaeth ddiweddaraf fel mae'r cynlluniau'n datblygu.

4.0 Sail ddeddfwriaethol

4.1 Nododd datganiad ysgrifenedig y Llywydd ar 21 Medi 2009 y byddem yn cymryd camau i gyflwyno deddfwriaeth i roi statws y ddwy iaith a ddefnyddir ym musnes y Cynulliad ar sail statudol gadarn.

4.2 Caiff y cyd-destun deddfwriaethol ei drafod gan y Panel yn ei adroddiad (paragraffau 11-28). Nid yw'r Panel wedi gwneud unrhyw argymhellion pendant ynghylch sut y dylid cael sail statudol gadarn i statws y ddwy iaith yng ngwaith y Cynulliad, gan nad oedd hyn o fewn ei gylch gwaith. Fe wnaeth, fodd bynnag, dynnu sylw at y sefyllfa anodd bresennol lle mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (sy'n monitro cydymffurfiaeth â'n Cynllun) yn atebol i Weinidogion Cymru sy'n atebol i'r Cynulliad ym mharagraff 18. Mae' r Panel yn nodi y gallai'r sefyllfa hon barhau o dan Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) presennol os caiff y Comisiynydd Iaith ei benodi gan Brif Weinidog Cymru sy'n atebol i'r Cynulliad.

4.3 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel y cafodd ei wella gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iaith Gymraeg) 2010, bellach yn rhoi sail statudol i'r Cynulliad ddeddfu er mwyn diweddaru'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Cynulliad a'r Comisiwn mewn perthynas â'r ddwy iaith (adran 35(1) ac Atodlen 2 paragraff 8(3)). Mae'n awgrymu bod gwerth mewn ymchwilio ymhellach i'r defnydd o'r pwerau hyn (paragraff

28). Ymddengys bod hon yn agwedd synhwyrol a byddai'n ein galluogi i wireddu'r sail ddeddfwriaethol gadarn sy'n cael ei cheisio fel y gall ddod i rym yn gynnar iawn yn ystod y Cynulliad nesaf.

4.4 Mae'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn cynghori bod nifer o opsiynau y bydd angen eu hystyried os bydd y Comisiwn yn penderfynu gwneud hynny. Gellid gwneud darpariaeth drwy geisio diwygio'r Mesur Arfaethedig presennol i gyflwyno Rhan sy'n ymdrin yn benodol â'r Cynulliad a'r Comisiwn. Fel arall, gellid datblygu Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) sy'n sefyll ar ei ben ei hun . Gallai cynnwys y ddeddfwriaeth geisio nodi safonau'r ddarpariaeth yn uniongyrchol ar wyneb y Mesur neu gallai, fel arall, ddarparu ar gyfer gwneud darpariaeth fanwl gan gynllun a baratowyd (ac a adolygwyd yn achlysurol) gan y Comisiwn a'i gymeradwyo gan y Cynulliad cyfan. Byddai angen mynd i'r afael â'r dull o sicrhau cydymffurfiaeth.

4.5 Os yw'r Comisiwn yn derbyn argymhelliad y papur hwn y dylai geisio defnyddio pwerau deddfu newydd y Cynulliad er mwyn rhoi sail statudol gadarn i ddarpariaeth iaith o ran y Cynulliad a'r Comisiwn y cam nesaf fyddai i staff y Comisiwn (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cyfrifol arfaethedig) ddatblygu cynigion manwl i'w cymeradwyo gan y Comisiwn.